LLOYD, JOHN ('Einion Môn '; 1792 - 1834), ysgolfeistr a bardd

Enw: John Lloyd
Ffugenw: Einion Môn
Dyddiad geni: 1792
Dyddiad marw: 1834
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: ysgolfeistr a bardd
Maes gweithgaredd: Addysg; Barddoniaeth
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn 1792 ym Mhwllgynnau, Ceidio, Môn. Y mae bron y cwbl a wyddys am ei yrfa i'w gasglu o farwnad ddienw arno, a argraffwyd yn *Y Gwyliedydd* (1834, 375), a'r *Gwladgarwr* (1835, 24). Bu farw ei rieni pan nad oedd ef ond plentyn; bu mewn ysgol yn Llannerch-y-medd; ac aeth (ar adeg anhysbys) i Lundain. Honnir weithiau mai ' cyfreithiwr ' (efallai glerc yn swyddfa cyfreithiwr) oedd, ond y mae'r cofnod o'i farw yn *Y Gwyliedydd* (1834, 288) yn ei ddisgrifio fel ' athraw Ysgol Syr John Cass ' - dywedir fod dau o feibion dug Wellington yn yr ysgol honno, ac y byddai Lloyd yn hyfforddi'r rheini yn eu cartref ar wyliau'r ysgol. Derbyniwyd ef yn aelod o'r Gwyneddigion yn 1827 (Leathart, *Origin and Progress of the Gwyneddigion*, 110). Yr oedd hefyd yn aelod o'r Cymreigyddion; bu'n is-lywydd ac yn ' fardd ' iddynt, a phan ymosododd rhai clerigwyr yng Nghymru ar y gymdeithas honno, canodd Lloyd (1829) res o benillion, ' Cymreigyddion Caerludd versus Cleberwyr Diymenydd.' Dengys adroddiadau o gyfarfodydd y Cymreigyddion (yn *Seren Gomer*) y byddai hefyd yn darlithio iddynt. Ond yn 1832, fe'i cawn, yng nghwmni Griffith Davies, F.R.S., yn protestio'n erwin yn erbyn tueddiadau gwleidyddol Radicalaidd y gymdeithas (ceir y ddadl yn *Y Gwyliedydd* ac yn *Seren Gomer*). Eto i gyd, os yw'r farwnad yn gywir, yr oedd gynt wedi cymryd rhan flaenllaw yn y brotest yn erbyn cau'r comin a chwalu'r tai unnos ym mhlwyfi Llandwrog a Llanwnda yn Arfon. Byddai'n prydyddu nid yn unig yn Gymraeg ond hefyd yn Saesneg - yn *Seren Gomer* (1832, 55) ceir cyfieithiad gan ' Eryron Gwyllt Walia ' (Robert Owen) o gân o'i eiddo, 1831, ar y gwanwyn. Bu farw 3 Awst 1834, yn 42 oed.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru* (AberdÃ¢r 1867-70), ii, 228-9

gwybodaeth gan Mr. R. Owen, a'r cyfeiriadau uchod

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733549

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Jenkins, R. T., (1953). LLOYD, JOHN ('Einion Môn '; 1792 - 1834), ysgolfeistr a bardd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-LLOY-JOH-1792

Copïo i'r clipfwrdd

LLGC
NLW
LLYFRGEL
THE NATI
Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government